EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS 2023

Cynhaliwyd yr 106ed Eisteddfod, a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys, ar ddydd Sadwrn Hydref 7ed yn y Neuadd Goffa yn Nhrefeglwys.
Y beirniaid eleni oedd Rhiannon Lewis, Cerdd, ac Elin Williams, Llên a Llefaru - y ddwy yn dod o Gwmann. Ruby Grigg o'r Drenewydd bu'n beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w weld yn addurno'r Neuadd Fwyta. Y beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau – Wendy Wigley, Llangurig, a Llawysgrifen – Eryl Douglas Jones, Trefeglwys.

Bu'r beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd, yn arbennig yng nghyfarfod y prynhawn, gyda hyd at deuddeg o blant mewn rhai cystadlaethau. Cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol leol, Ysgol Dyffryn Trannon. Enillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan Carys Turner o Lanwnog, a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod y p'nawn gan Nansi Hughes o Lanidloes - mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r ddwy ohonynt. Mari Beamond enilloddd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu "Awyr Iach."
Bethan Lloyd Owen, Llanidloes, ag Anwen Orrels, Abermiwl fu'n cadw trefn ar gystadlaethau'r llwyfan, gyda Fflur Davies, Llidiartywaen yn cyfeilio yng nghyfarfod y prynhawn a Sian Davies, Pen-y-bont-ar-ogwr yng nghyfarfod yr hwyr.

Enillydd Tlws Coffa Gwynfryn Evans eleni oedd Heledd Bessent, Dihewyd, am ei chyfraniad wrth ganu dan 30 a hefyd yr unawd Gymraeg.
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun"Rhyddid." Daeth chwech o gerddi i fewn i'r gystadleuaeth, gyda Siw Harston o Staines yn fuddugol. Dyma ei chadair gyntaf ar ôl dysgu cynganeddu ar-lein yn ystod y pandemig. Roedd ei cherdd yn sôn am ryddid i fyd natur, wedyn wrth hedfan y nyth, rhyddid i Gymru a rhyddid i ddychwelyd.
Y beirniad, Elin Williams, bu'n arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ôl y feirniadaeth cyrchwyd y Bardd buddugol i'r llwyfan gan Joyce Smithies a Susan Williams. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen, gydag Owen Lloyd Jones yn canu cân y cadeirio. Bu Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.

Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Mrs May Jones, Brynsingen, un sydd wedi rhoi cyfraniad mawr i'r Eisteddfod dros llawer o flynyddoedd. Yn ei haraeth bu'n sôn am ei milltir sgwar, ei chysylltiad gyda'r ffermwyr Ieuanc a'r eisteddfod. Dymunodd bob lwc i'r Eisteddfod yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y noswaith gwnaed y diolchiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor, Iwan Owen. Yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau y plant o Ysgol Dyffryn Trannon Trefeglwys

Unawd oed Meithrin: 1. Harper Powell 2. Ffion Davies 3. Ynyr Davies
Llefaru oed Meithrin: 1. Ynyr Davies 2. Fflur Davies 3. Harper Powell
Unawd Bl 1 a 2: 1. Nara Mitchel 2. Ina Penri 3. Mabon Davies
Llefaru Bl 1 a 2: 1. Nara Mitchel 2. Elsi Hughes 3. Dylan Sergeant
Unawd Bl 4 ac Iau: 1. Elin Williams
Llefaru Bl 4 ac Iau: 1. Benjamin Grffiths Thomas 2. Elin Williams 3. Ynyr Davies
Unawd Bl 6 ac Iau: 1. Nansi Hughes 2. Teleri Rowlands 3. Carys Turner
Llefaru Bl 6 ac Iau: 1. Carys Turner 2. Olivia Jones 3. Teleri a Heledd Rowlands
Llefaru i Ddysgwyr Bl 6 ac iau: 1. Cara Toy
Côr Plant: 1. Côr Babanod Ysgol Dyffryn Trannon 2. Côr Iau
Parti Cydlefaru: 1. Parti Merched Bl 5 a 6
Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ac Iau: 1. Carys Turner 2. Katie Beamond 3. Cara Toy
Grŵp Dawns Cyfoes: 1. Katie ag Esme
Unawd Offerynol dan 18: 1. Martha Jones Deklerk, Casgwent
Unawd dan 30: 1. Heledd Besant, Dihewyd

Llefaru dan 30: 1. Heledd Besant
Llefaru i Ddysgwyr: 1. Pippa Sillitoe, Trefeglwys
Unawd o Sioe Gerdd: 1. Heledd Besant 2. Owen Lloyd Jones, Clatter
Canu Emyn dros 60: 1. Gwynn Jones, Llanafan
2. Elen Davies, Llanfair Caereinion
2. Aled Jones, Commins Coch
Her Unawd: 1. Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn 2. Robert Jenkins 3. Heledd Besant
Her Lefaru: 1. Heledd Besant 2. Maria Evans, Caerfyrddin
Unawd Gymraeg: 1. Robert Jenkins 2. Barry Powell 3. Gwynn Jones
Darllen o'r Beibl: 1. Maria Evans a Joyce Smithies, Llanidloes
Cân Werin: 1. Owen Lloyd Jones 2. Aled Jones
Cerdd y Gadair: Siw Hartson, Staines
Englyn: John Ffrancon Griffith Abergele
Cyfansoddi Emyn: John Meurig Edwards Aberhonddu
Cân Ddigri: J.Meurig Edwards, Aberhonddu
Stori Fer: Martin Coleman, Derby
Limrig: Myfanwy Roberts, Llanrwst a Margaret Jones, Trefeglwys
Cyfansoddi Emyn Dôn: Godfrey Williams, Llangollen